

13 Y Methodistiaid Calфинаidd

(*Nodiad.* - Dibynnir am y prif ffeithiau am hanes yr achos fel y'i ceir yn *Hanes Methodistiaeth Cymru (H.M.C.)*, *Hanes Methodistiaeth Môn (H.M.M.)*, a *Hanes M.C. Môn*, 1880-1935 (H.M.C.M.). Cymerwyd y rhan fwyaf o'r gweddill o becyn o bapurau y daethpwyd ar eu traws mewn "cadw mi gei" - blwch pren rhwng dwy dylath yn nhô tí fferam Ty'n-coed ym Mhentre-uchaf, ac a ddaeth i'r golwg rhyw ugain mlynedd yn ôl.)

Dywedir, ond ni wyddis i sicrwydd ar ba sail, fod achos bychan i'r Methodistiaid Calфинаidd i'w gael yn Niwbwrch oddeutu'r flwyddyn 1750,¹ pryd y talodd y gēr ffraeth, y Parch. Peter Williams, ymweliad â'r pentref gan bregethu ar ryw Sabboth yn agos i'r Henblas² i gynulleidfa o ferched gan mwyaf. Rhwystrodd rheithor y plwyf³ i'r clochydd a'i wâs, fel yr aent heibio, aflonyddu ar y pregethwr.

Ymddengys mai yn Nhy'n-rallt yr addolid ar y cyntaf, yng nghartref Sion Dafydd;⁴ ar ei farwolaeth ef symudwyd yr achos i'r Plâs (? Hen-blas) lle y bu am oddeutu saith mlynedd ac ar ôl hynny i dî Owen Jones.⁵ Yn ddiweddarach, bu William Lewis, Ty'n y-coed⁶ a Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid,⁷ yn adgyfnerthiad

1 *H.M.M.* tud 32. Dechreuwyd *pregethu* yn Niwbwrch yn 1745 - *H.M.M.* tud. 64.

2 Tí yn Heol yr Eglwys oedd Henblas; ynddo bu farw Richard Evans, gwehydd, ym Mawrth 1744; gēr o'r enw Robert Pritchard Evans - mab Richard Evans, mae'n debyg - oedd yn preswyllo ynddo yn 1745.

3 Sef y Parch. Owen Jones; bu yn rheithor yn Niwbwrch o 1747 i 1777.

4 Dywedir fod y person wedi achwyn ar John Davies wrth ei feistr tir, yr hwn a ddaeth o Leyn i ymweled â'i denant, ond wedi i'r boneddwr gael eglurhad gan John Davies, cafodd yr olaf lonyddwch Æi bregethu faint a fynni. @ Yr oedd John Davies yn daid i'r Parch. David Jones, Dwyran (gwel Rhestr Bedyddiadau Capel Niwbwrch, rhifau 2 a 7), ac yn dad-yng-nghyfraith i Richard Jones, y pregethwr. - *H.M.M.*, tt. 32-3. Yn ôl tystiolaeth Cofrestrau y Plwyf, gwelir a ganlyn:-

(1) fod John Davies yn fab i Samuel David a Jane Bonn ei wraig, ac iddo gael ei fedyddio ar 17 Ion. 1725.

(2) bedyddiwyd Jane, merch John David, *Yeoman*, a'i wraig, ar 11 Rhag. 1748

(3) bedyddiwyd Sam, merch John David, *Farmer*, ac Elizabeth ei wraig, ar 12 Mai 1751, ond claddwyd y ferch hon ar 11 Ion. 1754

(4) bu John David yn un o wardeniaid yr eglwys blwyfol yn Niwbwrch am y flwyddyn 1758. Nid yw yn debyg y dewisid ef yn warden yr eglwys ar ôl cysylltu ei hun â'r pregethu yn ei dî; felly gellir synied mai yn ddiweddarach na 1758 yr amlygodd ei gydymdeimlad â'r Methodistiaid;

(5) claddwyd Elizabeth, gwraig John David, ar 28 Mai 1774;

(6) claddwyd John David, *Farmer*, ar 24 Awst 1775.

5 Yng Nghofrestrau'r Plwyf cyfeirir at briodas un o'r enw Owen Jones a Mary David (tybed oedd hi yn ferch i John David ?) yn Niwbwrch ar 10 Awst 1762; yn Carreg-yr-Eithin yr oeddynt yn byw yn Ebrill 1764.

6 Ymddengys ei fod yn Ër lled bwysig oherwydd ceir ei enw yn rhesu ymddiriedolwyr capel M.C. Amlwch. - *H.M.M.* tud. 64.

7 Credir ei fod yn un o'r swyddogion ffyddlonaf ynglŷn â'r achos. Cafodd ei argyhoeddi pan yn 20 oed (1769) trwy wrandaw ar y Parch. - Williams, is-beriglor Llanidan, a cwblhawyd ei droedigaeth gan yr hen bregethwr Richard Jones. - *H.M.M.* tud. 63.

/155/mawr i'r mudiad yn yr ardal, yn enwedig yr olaf, yr hwn, fel aml un arall, a deimlodd Ëg ei feistr tir am roddi derbyniad i bregethwyr Methodistiaid.⁸

O bryd i bryd, â'i caredigion yr achos Methodistiaid yn Niwbwrch⁹ i Forfa Malltraeth, lle y pregethid wrth ymyl tí bychan a elwid Ty'n-y-morfa. Magwyd un pregethwr, beth bynnag, sef Richard Jones, mab-yng-nghyfraith John Davies, ymysg Methodistiaid Niwbwrch yn y cyfnod hwn. Dywedir iddo bregethu am ddeugain mlynedd, a golygai hynny ddioddef erledigaeth nid bychan oddi ar law swyddogion yr eglwys wladol, ac yn fwy arbennig felly os pregethai mewn lle dieithr.

Cadwyd Cymanfa yn Niwbwrch ymhell, fe dybygid, cyn adeiladu capel yno, a'r gwîr y sonnir yn neilltuol amdanynt yn pregethu ynddi oedd Mr. Jones, Llangan a Mr. Sampson Thomas, sir Benfro.¹⁰ Ar ôl y Gymanfa hon, neu ar ei diwedd, meddir, aeth hen wraig dduwiol, o'r enw Annas at Mr. Jones, i ofyn am addewid ganddo i ddyfod drachefn i'r wlad; ebe hi, "Pa bryd, Mr. Jones bach, y deuwch chwi yma eto?" "Pan ddeui di, Annas, i Langan i ymofyn amdanaf", oedd yr ateb. Cydiodd yr hen wraig yn yr addewid, ac ar ôl i beth amser fyned heibio penderfynodd fyned i Langan. Yr oedd iddi gant a hanner o filltiroedd i gerdded, ac nid oedd ganddi am ei thraed ond y *clocs*, nac yn ei llogell ond a gardotai, nac yn ei chylla ond a roddid iddi ar hyd y ffordd. Eto, cyrhaeddodd Langan er mawr syndod i Mr. Jones, gyda'r canlyniad iddi lwyddo i gael tri o efengylwyr pennaf eu hoes i ddyfod i bregethu i sir Fôn, sef Jones o Langan, Rowlands o Langeitho a Llwyd o Henllan.¹¹

Trwy ddiwydrwydd Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, llwyddwyd i adeiladu capel - y cyntaf - yn Niwbwrch yn 1785,¹² ond bu Richard Jones y pregethwr farw dair blynedd ar ôl hynny. Y swyddogion a ofalai am yr achos yr adeg honno oedd Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid; John Hughes, Fron-deg; John Griffith, a William Hughes, Hen-dî.¹³ Ar 27 Mawrth, 1791, cynhaliwyd Cyfarfod Misol yn Niwbwrch. Yn 1810 cawn fod y Sir wedi casglu tuag at gapel Niwbwrch , 25 16. 0. [£26-80p] - swm sylweddol iawn yn yr oes honno. Tua'r adeg yma ymunodd Rice Hughes, ysgrifennydd cyfreithiol Dinam, â'r achos yn Niwbwrch.¹⁴

/156/Yn ffodus y mae ar gael gofrestr o enwau yr aelodau a'u cyfraniadau misol at y weinidogaeth o 1804 ymlaen. Cynhwysa'r llyfr hwn 132 tudalen, 72" wrth 6" [18cm x 15cm] eu maint. Mae'r llawysgrif yn fân a destlus a'r llyfr wedi ei linellu yn 13 colofn - y golofn gyntaf yn nodi swm yr adduned misol a'r 12 golofn arall ar gyfer y 12 mis o'r flwyddyn; croes yn dynodi y taliad am bob mis. Rhoddir enwau y brodyr a'r chwiorydd ar wahan. Yn dilyn ceir crynodeb o ddechrau cynnwys y llyfr:

8 Bu Pwll-yr-hwyaid yn gartref i Fethodistiaeth am flynyddoedd. - *H.M.M.* tud. 63.

9 Felly hefyd y brodyr Methodistiaid o'r Aberffraw. - *H.M.M.* tud. 37.

10 Gweler hefyd *H.M.C.*, II, 508.

11 *Hynodion Hen Bregethwyr Cymru* (Wrexham), tt. 76-77.

12 *H.M.M.*, tud. 85.

13 Gweler hefyd *HM.C.*, II, 509.

14 *H.M.M.*, tud. 85.

Blwyd dyn	Brodyr	EU ADDUNIADAU MISOL											EU ADDUNIADAU MISOL							
		2/6	1/6	1/-	9d	8d	6d	5d	4d	3d	2d	1d	Chwirydd	2/-	1/-	6d	4d	3d	2d	1d
1804	42					9		11	12	9		39				2		2	33	1
1805	38					8		10	11	7	1	39			2		3	28	1	
1806	39		1			10		10	9	2		44			1	1	5	35		9
1807	45		1			10		12	12	8		60		1	3		5	49		14
1808	46		1			11		13	9	10		54	1		1		6	45		16
1809	50		1			11		13	11	11		54	1		1		6	46		17
1810	47		1			13		9	11	11		51	1		1		6	41		
1811	51		1		1	10		11	6	5	2	61	1		3		8	38		
1812	54		1		2	14		10	9	12	4	61	1				9	48		
1813	55		1	4		12		11	15	7		63	1		3	1	14	43		21
1814	45		1	3	1	1	12	10	8	7	1	60	2		3	5	8	40		16
1815	44			5	1	1	12	9	7	7		58	1		3	5	8	37	1	
1816	44		1	4	2	1	10	9	8	7		44	1		3	5	8	37	1	15
1817	42		1	4	2	1	9	8	7	10		47			2	4	9	33		14
1818	42			3	1	1	10	8	7	10		50			2	4	8	35		
1819	44		1	3	2	1	10	8	4	14		48			2	3	9	34		17
1820	39		1	3	2	1	10	5	3	12										
1821	34		1	1	1	1	8	6	4	12		45			4	2	8	31		
1822	41		1		1	1	11	6	5	14	2	81			8	1	12	45	5	
1823	42		1			1	9	6	6	17	3	77		1	5	1	14	48	5	
1824	36		1			1	7	1	6	8	12	66		1	5	1	12	41	4	
1825	32		1			1	7	1	5	6	11	59		1	4	1	11	40	2	
1826	32		1			1	7	1	2	5	14	52		1	3	1	10	36		
1827	33		1			1	7	1	3	6	13	52		1	4		11	34		

/158/Diddorol hefyd yw'r nodiadau ar brofiad y saint yn seiadau yr eglwys yn 1815; rhoddent gipdrem ar y ddisgyblaeth eglwysig a syniadau crefyddol yr aelodau y pryd hynny:

“Seiat y 5 o Ionawr. Sara Hughes y gair wrth ai meddwl melldigedig iw pob dun nad iw yn aros yn holl betha a sgrifenwud yn llyfr y ddefdd ai gwnethr hwint. hwn yn terfysgy peth ar ai meddwl. Mary Jones yr hen dal yr hwn y mau y mab ganddo y mau bowud ganddo. dim cwesdiwn am y Sulfan ond ofni nad oedd hi meawn yndeb ar Sulfan. Gryfudd Jones a chymdeithas ai ddiodeffiada ef. ofni man go ddiethr o gymdeithas ...

2 wythnos. galy Thomas Roberts i gyfri am golli at le tran ymrafeilio. John Lewis ar 3 gorchmun wrth ai feddwl yn gweld ai weuledd ai dyrien yn wutleb purdeb deddf Duw. yn gweld ai golladigaith yn gyfiawn ond yn gaul cysur yn y gair hwn iw fy anwul fab yn y rhwn im boddlonwud.

3 wthnos. areithio cin derbun y sacrament. gerddad peth ar dyrfyna yr ddisgybliauth.

4 wthnos. ceryddu yn gyffredinol am gario peth or seiat. Elinor Fowk yn gyfadda mau hi oedd yn eyog ai rybiddio am y gyfriw bechod.

5 wthnos. ymddina ag Elinor Fowg am yr un trosedd. gofun barn y gorff a oedd y pechod yn ai thori allan. barn y nifar fwua am iddi aros yno.

ymofun a William Williams am iddo rhoi gyfrath ar gymydog am ai alw yn lleidr meawn Frau heb genad y gorff.

6 wthnos. Ann Williams y rald y deyd ai bod yn teumlo ai hun mewn gyflwr llonydd a didriniayth. yn teumlo llai o flas yn chwilio y gair. hwn yn peru dychrun iw meddwl tan radda o wasgfa oi blegid ar gair hwn wrth ai meddwl goddefaf ddig y rarglwudd oherwudd pechais iw erbyn.

Elinor Prichart y rofd yn gwuno oblegid twllwch ai meddwl am dduw ac am ai chyflwr. peth terfug yn dilin ai meddwl oherwudd ai diffrythdra dros dduw.

7 wthnos. Cathrin Roberts cau yr ychain ar gair hwn wrth ai meddwl y mau genum air sicrach y profwudi yr hwn.da gwenewch. fod yn dal arno fel ar ganull yn llewyrchy. yn gwuno oherwudd angngordinayth ai chalon yn misio gorfwus ar air duw.

8 wthnos. Jane Williams ar gair hwn na thrisdewch lan ysbryd duw. yn cwuno gan lygradd ai chalon. yn dwed ai bod yn gaul cysur yn y gair hwn dichon Duw or meini hun gyfodi plant i Abraham.

Mary Jones gwraig Fransis yn gwuno oherwydd gyflwr gysglyd fel un yn gorwedd yn ai gwely a rhiw gwuno difrwuth am godi. yn dyweud y gair hwn mi adwan ef gorchmun efe iw blant ar ai ol gadw o honunt Fordd yr arglwudd.

9 wthnos. Cathrin Williams ty yn pwll yn dwad i seiat a rhiw derfug yn ai meddwl am fatar enaid yn deud y gair hwn os giddedig iw efengil ni yn y rhai golledig y mau yn giddedig.

Richart Owens y berllan grin yn gaul ei alw i gyfri ai gerryddu am feddwi./159/

10 wthnos. Elyzabeth Acwil yn gwuno oherwudd angngrediniaeth ai chalon.

11 wthnos. Cathrin Hughes yn ofni ai bed yn cwryla a Duw yn wunab trouon rhagluniaethol ar gair hwn wrth ai meddwl tor ef i lawr pam man yn diffrytho tir.

Jane Roberts yn cwuno oherwudd anaddasrwydd ai bowud gida chrefudd ar hud ai thaith a rhiw arwiddion terfug yn ai meddwl oherwudd petha presenol yn deud y gair hwn af a dychwelaf im lle hud oni chynabyddont ai bai.

Robert Jones yn gwuno ai fod yn dowull am enw Duw yn misio gweld y gogoniant ar mawredd sudd yn ai ene ... yn deud y gair hwn ni a wuddom fod y ddefdd yn ysprydol euthur ma fi sudd gnawdal wedi fy ngwerthy dan bechod.

12 wthnos. Catrin Williams tyn pwll yn ofni nad odd yn casau pechod fel y dylau. yn ofni ai fod yn gario yr llywodrauth mau dyn ar achos iddi fo[d] mor dowull ar meddwl yn deud y gair hwn ydwyt lanach dy lygaid nag y gelli edruch ar bechod.

Sara Hughes yn deud ai bed wedi blino fel yr odd sef mewn terfug a rhagfarn yn rhu anaddas o achos y petha hun i dderbun y sacrament bob tro ar hud bron ai hous.

13 wthnos. Hugh Williams Fron Deg yn gwuno ag yn ofni ai fod yn ddiarth iawn ir arglwydd iesu yn ai swiddi yn fwua o ran ei brofiad. yn deud y gair hwn os ain galon an gondemnia mwu iw Duw na calon y fo a wur bob peth.

William Jones yn ofni dau beth yn gynta ai fod yn trysdio gormod iw ddeuall ai hun yn ail ai fod fel y gwas ar un dalant yn ai chiddio yn y ddaur heb fod yn Fyddlon yn iwsio ai ddeuall.

14 wthnos. Elin Lewis pen y gors yn ofni ai bod yn caru pechod a rhiw gwuno am grefudd erbun marw. yn deud y gair hwn heb sangteirwudd ni cheiff neb welad y rarglwydd.

Cathrin Williams ty yn pwll yn deud ai bod wedi gaul gorychafiauth ar y pechoda y rodd yn ofni ai bod tan ai llywodrauth or blaun sef cwrylon a rhagfarn ag wedi gaul edifeirwch oi plegid yn teimlo tawelwch.

15 wthnos. Thomas Roberts Fynon Wen yn gwuno oherwudd twllwch ai feddwl am dduw. yn deud y gair hwn hyn iw yr bowyd tragwuddol iddun dy adnabod di yr inig wir dduw ar hwn anfonaisd iesu grisd.

Hugh Evans yn gwuno oherwudd di Frwuthdra ai ysbryd wrth geisio addoli duw a rhiw sychad gwan am dir newudd. yn deud y gair hwn mi glywais lawar o son am danat am glistia ond yn awr fy llygaid ath welodd mi rw i yn fy Fieiddio fy hyn.”

Yn flaenoriaid yr eglwys oddeutu'r cyfnod yma ceid Robert Jones, Gwninger; Hugh Evans, saer; a David Roberts, Maes-y-ceirch-dir. Gër penderfynol a di-dderbynwyneb oedd Robert Jones ac yn rhy barod i gredu popeth a glywai, a pharai hyn iddo fyned i brofedigaeth gyda'r ddisgyblaeth eglwysig weithiau, trwy geryddu rhai aelodau heb sail ddigonol i'r cyhuddiadau. Ond er /160/ ei fod yn un gwyllt deuai ato'i hun yn fuan, ac os oedd yn llym wrth yr euog yr oedd yn dra thyner wrth yr edifeiriol. Brawd ydoedd i'r Parch. David Jones, Dwyran. Yr ail flaenor oedd Hugh Evans¹⁶ ac iddo wraig rinweddol iawn. Yn eu tí y lletyai y Parch. John Elias pan ymwelai â Niwbwrch.¹⁷ Zaccheus ymhlith y blaenoriaid ydoedd David Roberts, Maes-y-ceirch-dir; un bychan o gorffolaeth ond meddai synnwyr cyffredin cryf. Rhagorai gryn lawer ar ei gyfoedion oherwydd iddo dreulio peth amser yn Lloegr a thrwy hynny ddysgu Saesneg.¹⁸

Tebygol nad oedd yno DÍ Capel yn perthyn i'r achos hyd 1821. Beth bynnag am hynny, dyma gopi o'r cytundeb a wnaed rhwng ymddiriedolwyr y capel a gër a gwraig y Tí Capel yn y flwyddyn honno:

16 Bu farw yn 1849.

17 *H.M.M* tud. 159.

18 Hunodd yn 1847.

“Cytundeb wnaethbwyd Tachwedd yr wythfed Dydd yn y flwyddyn Un mil wyth gant, ac un ar hugian rhwng John Jones yr hen dy, Thomas Smith Ty croes, a David Roberts Tyddyn y graig *Trustees* Capel isaf Niwbwrch o un tu. Ac Evan Jones ac Elizabeth ei wraig o'r tu arall (fel y canlyn). Mae y dywededig *Trustees* yn gosod Ty'n y Capel isa Niwbwrch ar Ardd sydd wrth dalcen deheuol y Capel Am un flwyddyn i'r dywededig Evan Jones ac Elizabeth ei wraig am Ddau Swllt a chwech cheiniog i'w talu Hen ddydd calan gaiaf i'r dywededig *Trustees*. Ac y mae Tyn y Capel i fod yn dy rhydd ac agored i bawb o gynulleidfa'r Capel i droi iddo ac i fod ynddo ac mewn meddiant o hono ar y Sabbathau a dyddiau eraill o'r wythnos trwy ganiattad y dywededig *Trustees* ac i fod yn Dy disgynfa i Bregethwyr Teithiol a Chartrefol a fo yn perthyn i Gorph y Methodistiaid Calfinaidd. Hefyd mae i'r dywededig Evan Jones ofalu am Gyffylau'r Pregethwyr a rhoi pob ymgeledd angenrheidiol iddynt, cadw'r stabal yn lân a'r cowrt o flaen drysau'r Capel, y Ty a'r stabal, Hefyd agor drysau'r Capel o flaen pob cyfarfod a'u can a'u cloi wedi y darfyddo'r cyfarfodydd. Hefyd goleuo a diffodd y canhwylau agor a chau y ffenestri fel y bo angenrheidrwydd a chadw yr holl Gapel yn lan. Hefyd fod i'r dywededig Evan Jones gadw llain y Capel oddiwrth Foch, a Defaid, a phob anifail arall o'i eiddo ei hunan, ac eraill. Hefyd os bydd y dywededig Evan Jones neu Elizabeth ei wraig yn anfoddloni i'r Cytundeb hwn fel Gwas neu Elizabeth ei wraig fel Morwyn fod iddynt ymadael Trwy roi Tri mis o rybudd i'r *Trustees*. Hefyd os bydd cynulleidfa y dywededig Gapel yn anfoddloni i'r dywededig Evan Jones fel Gwas neu i Elizabeth ei wraig fel Morwyn fod iddynt hwythau ymadael y mhen tri Mis ar ôl rhybudd. Hefyd i'r dywededig Elizabeth fod yn forwyn ufudd ostyngedig a distaw i bob gwraig a fyddo yn dyfod ac ymborth Pregethwyr i Dy'n y Capel. Hefyd fod i'r dywededig Elizabeth gadw digon o ddwfr glan yn y ty at bob achosion, a'i chadw ei hun, a'r ty, a'r dodrefn oll yn lan. Hefyd fod i'r dywededig *Trustees* /161/roddi i'r dywededig Evan Jones ac Elizabeth ei wraig chwech Baril o'r glo Canal L'pool yn y flwyddyn i'w losgi yn Tyn y Capel ac i barottoi ymborth i'r Pregethwyr &c.

Llawarwyddwyd
gan y Trustees

John Jones
Thomas Smith
David Roberts

Llawarwyddwyd gan
Evan Jones ac Elizabeth
ei wraig

Evan Jones
Mark x Elizabeth Owen

Tystion o'r Llawarwyddwyd

John Hughes - yr Allt
*Llangaffo*¹⁹
Hugh Evans - *Taid Dr. Evans*,
*Llanerchymedd*³⁷³

19 Ychwanegwyd y cyfeiriad yn ddiweddarach.

Ceid pregethu yma bron bob Sabboth o 1830 ymlaen; dyma restr am ran o'r flwyddyn honno:

PREGETHWYR CARTREFOL YN DECHRA AWST 6, 1830.

Awst 6	David Jones	1	6
“ 8	W. Wms.	2	0
“ 15	Robert Hughes Gaurwen	2	0
“ 15	Robert Hughes Niwbwrch	1	6
“ 22	John Jones Rhendy	2	0
“ 29	Hugh Jones Cybi (2)	3	6
Medi 5	David Jones	2	0
“ 25	Robert Williams Gorslwyd	3	0
Hyd. 3	Owen Jones Llangoed	1	6
“ 3	Robert Hughes Niwbwrch	1	6
“ 10	David Eleias	2	0
“ 17	Mr. Roberts Amlwch	4	0
“ 25	John Edwards	1	6
“ 31	Mr. Lloyd		
Tach. 7	David Jones	3	6
“ 14	Robert Williams Caur	1	6
		&c.	&c.

Ar adegau byddai pregethwyr dieithr - yn gyffredin o'r De - yn dod ar daith bregethwrol drwy'r Sir. Trefnid eu cyhoeddiadau ymlaen llaw, er enghraifft:/162/

CYHOEDDIAD MR. WILLIAMS ABERTEIFI AI GYFAILL TRWY FÔN, 1830.

Mai	26	Graig	10.	Beaumaris	7.
“	27	Llangoed	10.	Penial	2. Pengarnedd 7.
“	28	Nasareth	10.	Tabernacl	2. Ty Mawr 7.
“	29	Gosan	10.	Llanarchmedd	2 a 6.
“	30	Gorslwyd	11.	Amlwch	2 a 7.
“	31	Bethesda	10.	Bethlam	2 Llanrhyddlad
7.					
Mehefin	1	tyn y maun	11.	Llanfwrog	7.
“	2	Rhosgolun	11.	Caur Gybi	7.
“	3	Caurgeiliog	10.	Hebron	2. Bodedarn 7.
“	4	Sion	10.	Gwalchmai	2. Bryndy 7.
“	5	Aberffraw	10.	Bethal	2. Llangristolys 7.
“	6	Talwrn	11.	Llangefni	2 a 7.
“	7	Gaurwen	10	Bethania	2. Niwbwrch 7.

“	8	Dwyran	10.	Brunscencin	2.	Llanfair	7.
“	9	Gilead	11.	Bangor	2 a 7.		

Yr amser honno yr oedd yfed cwrw yn arferiad bron mor gyffredin ag oedd yfed llaeth enwyn ym Môn cyn cyfodiad y *separators* i ffermdai ein gwlad, a darperid cwrw ar gyfer y pregethwyr fel y gellir casglu oddi wrth y rhestr ganlynol o daliadau y capel yn 1834:

Chwefror	10.	taly am gwrw	1	102
		taly ir gof am Bydoli ceffyl		
		Richart Roberts		62
Maw.	9	taly am gwrw	1	12
Ebr.	4	gwrw	1	0
“	10	chwart o win	3	6
Mai	4	am gwrw	9	
Mihefin	4	gwin 1 peint	1	9
Gor.	6	taly am gwrw	1	12
“	25	3 ffeint o win	5	3
Awsd	4	taly am gwrw	1	42
Medi	6	taly am gwrw	1	3
Hyd.	5	taly am gwrw	1	12
		Am ran Beibl	1	9
		Am beint o win	1	12
Tach.	9	Am gwrw	1	0
		Am lyfr cymdeithas cymmedroldeb	1	0
		Am ran Beibl	1	0

O'r "Leion" ("White Lion") y deuai'r cwrw ac o'r "dre" (Caernarfon) y ceid y gwin i'r cymun. O fysg y gwahanol daliadau yn 1832-3, dyfynnir rhai o natur wahanol i'r uchod:/163/

1832.	Maw.	31	taly am lyfr i gadw'r cyfri	1	6
	Mai	28	taly i Owen Rowlant am lifio	6	9
	Rhag.	6	taly am drin Gwair y Capal i Thos. Rowlands	4	0
1833	Ion.	15	talwyd ir Ysgoldy	,1	0 0
	Chwef	6	taly i Bobl Ysgoldy Hanar y casgliad	10	2
	Ebr.	12	treth y capel i R. Jones 3 treth	2	3
	“	26	treth fawr i W. Griffith		9
	Mihefin	8	am fara a dandro (i'r cymun)		6
	“	20	taly yn Amlwch at achos Brawd	,1	0 0
	“	26	6 ffeigad o galch	4	6
			am ei nol or Qurt	2	6

		am nol tywod i roi am ei ben	6
		Hingis ai gosod	6
Awst	3	i Thos. Rowlant am drwsio y wal	1 6
Medi	10	tal y John Jones am 2 falir a 2 o lo ir capal	4 42
		am ei gario	72
“	16	am drwsio llidiart cowrt capel	6
Tach.	13	i Wm. Hughes am drin y Gwair	4 6

Yn 1835 bu gryn drin ac adgyweirio ar y capel; rhoddir yma fanylion y cyfrif ariannol yn llawn, oherwydd diddorol yw'r hen enwau ar y defnyddiau adeiladu heblaw eu pris &c.

COWNT AM REPARS A NAWD AR Y CAPAL 1835.

Taly Richard Davies am goed				,	s	d.		
				29	19	32		
Taly am lifio				3	3	7		
Taly i Jaffath Roberts				4	0	0		
Taly am gerig pwysa ²⁰				4	10	0		
am ei cario Drosodd				0	6	6		
taly ir nelar am bob Hoilion				1	16	6		
taly am flew i randro				0	9	0		
Mil o gerig toi at y ty				0	14	6		
taly John Thomas ar gwas am weithio				1	5	6		
taly John Owens am weithio				1	19	6		
taly i William Williams am weithio				5	17	6		
taly i Owen Jones y gof am weithio hauarn				1	2	2		
am Deils ar y tapla				0	11	102		
pegad o galch or dre i weitwasio				0	1	4		
/164/cerig lintars				0	2	6		
am gario teils lintars calch Drosodd				0	1	6		
am ai cario'r borth i Niwbwrch				0	2	0		
am godi cerig at dy y Capel				1	2	0		
am nol gro i Landdwyn				0	1	6		
Hoilion o siop William Jones				0	1	22		
taly am gario towad am ben calch				0	1	6		
talwyd i David Davies				6	15	0		
taly i Thomas Hughes				1	9	6		
am ffyn ysdol yn Borth				0	2	0		
am dynu coed o lan y mor at y pwll				0	2	6		
am Hauarn ffyn ystol ar gof am ei gweithio				0	1	4		
talwyd i Owen Roberts am gario at ty Capal				1	0	0		

²⁰ Cerrig i doi; gwelir hwy heddiw ar hen feudai yma ac acw.

taly am gwrw ir dynion oedd gida'r coed	0	1	0
talwyd am gwrw wrth nol y coed	0	1	0
taly i Drol y Leions am gario or Borth	0	4	0
pen Dre troliad	0	2	0
ty lawr troliad i W Thomas	0	2	0
Y goetan am droliad	0	2	0
taly i Mary Owen am nol 14 ar ddeg o galch	0	4	8
taly i Richart Rowlant Am glirio	0	11	6
taly i William Hughes plas pydewa am gario calch			
15 pgad yn ol 4d [2p] y peg	0	6	0
am gario sglah coed 3 llwyth	0	6	0
taly am 2 fwndal Ais	0	7	0
Am Hoilion Ais yn y gorffwysfa	0	1	2
i Richart Jones Llangefni am lifio	0	5	0
taly ir gof am Haurn i ddal y Seti newydd	0	0	9
taly ir gof am sbex i roi y tylatha	0	1	6
am Hoilion Haras ty Capal	0	2	6
am us ir mortar	0	0	12
			40 8 82
Mr. Owens 6 Bwndl o ais	1	3	0
38 Quartars of lime at 8d [4p]	1	5	4
4 Hundred of sleating Nels at 1/6 [8p]	0	6	0

Un “fantolen” sydd ar gael o'r cyfnod yma, a ber lawn ydyw:

MANTOLEN AM Y FLWYDDYN (1838)

Llefarwyr cartrefol	5	12	6
Llefarwyr dieithriol	5	8	0
Rhanau Bibl a Bara gwin	0	10	72
Taliadau	11	11	12
/165/Derbyniadau	11	2	102
Mewn llaw er llynedd	0	18	3
	12	1	12
	11	11	12
mewn llaw	0	10	0

Golygwyd y cyfrif uchod gan DAVID ROBERTS, THOMAS SMITH. *Chwefror* 7, 1839.

Torrodd diwygiad allan yma oddeutu 1840. Diwygiad Griffith Williams, Bwlan, y gelwir ef, oherwydd ef a fu yn offeryn i'w gychwyn²¹ Wedi hyn codwyd Escu Davies yn flaenor, ond ymhen blwyddyn neu ddwy, fe'i cysylltodd ei hun â'r Annibynwyr. Yr oedd yn ysgolor gwych a bu yn wasanaethgar fel ysgrifennydd yr eglwys. Bu hefyd yn bur haelfrydig, yn neilltuol felly yn ei gyfraniadau tuag at y Gymdeithas Genhadol a Chymdeithas y Beiblau.

Dewiswyd Robert Hughes, Tyddyn-pwrpas, yn swyddog yn 1845. Tebyg yw nad oedd ei ffyddlonach yn y Sir. Ni chollai unrhyw foddion o râs, ac yr oedd yn ãr gonest, cywir, o argyhoeddiad dwfn ac o ddifrif. Trysorodd yn ei gof lawer iawn o'r Beibl a byddai adnodau ganddo wrth law, ar bob mater, yn yr Ysgol Sul ac yn y cyfarfod eglwysig, byddai y naill adnod yn hwylus ganddo i esbonio un arall. Gwasanaethodd fel blaenor am 42 mlynedd a bu farw yn 1887.

Blaenor arall oedd William Roberts, mab Owen Roberts, Maesy-ceirch-dir, ond un Cyfarfod Misol yn unig a gafodd ar ôl ei ddewisiad. Yn 1857 gwnaed Richard Jones yn swyddog, a phedair blynedd wedyn cafodd ei fab, William Jones, anrhydedd gyffelyb. Bu Richard Jones yn flaenor am 46 mlynedd ac yn ãr neilltuol am ei ffyddlondeb i ddilyn moddion gras. Yr oedd yn ieuanc ac ystwyth o ran ei ysbryd. Symudai gyda'i oes, yn ãr meddylgar a chofus ac yn ofalus iawn am y casgliadau yn eu hadeg. Meddai allu arbennig i adrodd hanesyn ac o dueddfryd dyner a heddychol, canys mab tangnefedd mewn gwirionedd ydoedd ef.

Fel canlyniad i'r diwygiad nerthol a gafodd yr eglwys yn 1859 ac a barhaodd am yn agos i ddwy flynedd, ychwanegwyd dros ddau gant at rif yr aelodau. Dywedir i'r diwygiad dorri allani ddechrau ar nos Sadwrn yng nghyfarfod gweddi pobl ieuanc yr eglwys, a buan y lledaenodd dros yr ardaloedd cylchynol â'r Sir.

Oherwydd y cynnydd mawr yn rhif yr aelodau rhaid oedd wrth adeilad ehangach i gynnal y moddion, ac yng Nghyfarfod Misol Tachwedd 1859 a gynhaliwyd yn Niwbwrch cafwyd caniatad i ailadeiladu'r capel. Gwnaed y gwaith gan Elias Jones, Dwyrán, dan arolygiaeth Hugh Hughes, Bethania (Llangaffo), a chostiodd , 800 /166/ ynghyda chludo. Ystyrid cyflawn werth yr adeilad yn , 1,000. Gweithiodd a chyfrannodd aelodau'r eglwys mor dda nad oedd ceiniog o ddyled arno ddiwrnod ei agoriad. Ynddo y buont yn addoli o Mawrth 1861 hyd yr un mis yn 1880.

Yn ystod y blynyddoedd hyn yr oedd Dwyrán, Niwbwrch a Bethania (Llangaffo) yn daith Sabboth, a cheid pregeth ymhob un o'r tri ynghyda dau bregethwr yn y daith ar adegau.

Dechreuodd William Jones, mab Richard Jones, bregethu yn 1866, ac ordeiniwyd ef naw mlynedd ar ôl hynny. Dewiswyd Capten William Jones, Bod-Iorwerth, yn flaenor yn 1865, ond yn fuan symudodd i fyw i Ddwyrán. A chyn hir, ymhen rhyw flwyddyn, syrthiodd y coelbren ar William Roberts ac Owen Lewis, saer.

Disgrifir cysylltiad eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Niwbwrch â'r Ysgol Frutanaidd a godwyd yn y pentref yn 1868 yn adran hanes addysg, pennod xix.

21 *H.M.M.*, tud. 160.

Dewiswyd R. P. Jones, *draper*, sef brawd y Parch. William Jones, yn flaenor yn 1877, ac ymhen saith mlynedd wedyn codwyd dau flaenor ychwanegol - Hugh Hughes, saer maen, a Hugh Evans, *flour dealer*.

Tynnwyd y capel i lawr drachefn, a hynny i'w sylfeini, yn 1880. Y cynllunydd ydoedd Richard Davies, pensaer, Bangor, a'r adeiladydd fel o'r blaen, Elias Jones o Ddwyrán. Heblaw ail-adeiladu ac ailddodrefnu y capel, adeiladwyd tí gerllaw y capel a chostiodd y cwbl ynghylch , 2,000. Gosodwyd yr eisteddleoedd ²² yng Ngorffennaf 1881, a'r pryd hynny yr oedd eisoes , 900 o'r draul wedi ei thalu. Erbyn 1891 cliriwyd y ddyled yn hollol, a hynny yn gyfangwbl gydag arian a dderbyniwyd am yr eisteddleoedd, casgliadau yr Ysgol Sabbothol a Dydd Diolchgarwch.

Cafodd eglwys Niwbwrch yr anrhydedd o fagu nifer o'i phlant i fod yn weinidogion yn y Cyfundeb. Yma y dechreuodd y Parch. Robert Hughes bregethu yn 1885. Ordeiniwyd ef yn 1893 a bu'n fugail tair ofalaeth ym Môn, sef Tí Mawr, Llanfaethlu a'r Valley; hunodd yn 1938. Yr oedd yn bregethwr sylweddol ac yn Gymreigiwr rhagorol iawn. Yn 1895 cychwynodd y Parch. William Morris Williams ar ei yrfa fel pregethwr. Derbyniodd alwad i fugeilio yng Nghwm-tir-mynach, Meirionydd, yn 1905. Wedi bod yno bum mlynedd, symudodd i ofalaeth Llangwyllog a Bryntwrog. Ymneilltuodd o hon yn 1924 mewn gwendid mawr a bu farw'n ddisyfyd ddwy flynedd yn ddiweddarach ym mhreswyl Syr R. J. Thomas, Bar., yng Nghaergybi. Claddwyd ef ym mynwent Bryntwrog. Pregethwr cymeradwy ydoedd; meddai ysbryd tawel a siriol, ac edrychai ar yr ochr obeithiol i bopeth. Dioddefodd lawer yn ddirwgnach a bu yn gyfaill da i'r gwan a'r anghenus yn ôl ei allu. Dechreuodd y Parch. John Smith bregethu yn 1896; aeth i fugeilio Nantglyn yn 1907 ac oddi yno symudodd i ofalaeth Penucheldre a /167/Phenygarnedd, Môn. Ers blynyddoedd bellach y mae ef yn arolygu'r diadelloedd yng Nghae Athro a Nasareth yn Arfon, lle y mae yn fawr ei barch ac y gwerthfawrogir ei wasanaeth. Y Parch. O. J. Roberts, D.D. a ymfudodd i'r America, a gychwynodd ei yrfa yma hefyd.

Yn 1892 codwyd ysgoldy helaeth ac adeiladau eraill wrth ymyl y capel, ac yn yr ysgoldy hwn y cynhelir gwahanol gyfarfodydd yr eglwys ac Ysgol Sul y Plant. Bu'r draul ar y gwaith hwn yn , 800 ond buan y cliriwyd y ddyled hon.

Yn niwygiad 1904-5 ymunodd 45 â'r eglwys. Un o ffrwythau amlwg y diwygiad hwnnw yw Cyfarfod Gweddi y bobl ieuanc a gynhelir ar ôl oedfa bore Sul. Cyn yr oedfa honno y ceid y cyfarfod hwn ar y cyntaf.

Cyflwynodd y Parch. Humphrey Pryse Jones ei hun i waith y weinidogaeth yn 1908. Ordeiniwyd ef ddeng mlynedd yn ddiweddarach, a gwasanaetha yn awr yn fugail Bethania, Burry Port, De Cymru. Yn 1910 dewiswyd yn flaenoriaid Robert Griffith, Cambrian House; H. O. Hughes, Y.H., Cefn-mawr, Llangaffo, er na dderbyniodd ef yr alwad; Richard Jones, Corn-coch, a D. Pryse Jones, L.T.S.C., ysgolfeistr cerddgar y fro. Symudodd yr olaf o'r ardal ymhen naw mlynedd wedyn, a bu farw Robert Griffith yn niwedd 1935.

22 Lle i eistedd i 605 o oedolion.

Drwy haelioni Syr J. Prichard-Jones, Bar. yn 1913, gosodwyd yn y capel, un o bobtu'r pulpud, ddwy ffenestr liwiedig hardd, i goffau dau frawd y rhoddwr, sef y Parch. William Jones ac R. Prichard Jones, y naill yn weinidog a'r llall yn flaenor yn yr eglwys hon. Yr un flwyddyn prynwyd tŷ helaeth, Bod-Iorwerth, yn gartref i'r gweinidog ac, ychydig ar ôl hynny, darparwyd moddion i gynhesu'r capel a'r ysgoldy.

O'r tri a alwyd yn flaenoriaid yn 1915, symudodd L. O. Evans, Chapel Street, i Dalsarn, Arfon, ymhen chwe blynedd wedyn; bu Hugh Jones, Dyffryn, farw yn 1938, ond erys W. D. Evans, Pen-y-bonc, gyda Richard Jones, Corn-coch, yn wylwyr effro ar y mur. Noswylodd Hugh Hughes oddi wrth ei lafur yn 1916 a Hugh Evans tua'r un amser, ar ôl deugain mlynedd o ymroddiad diball i waith eu swydd. Llafuriodd Hugh Hughes lawer gyda'r Ysgol Sul, y Gobeithlu, Cymanfaoedd y Plant a'r Seiat. Gŕer o ddysg a diwylliant uchel oedd Hugh Evans; dyn cywir, tawel ag onest, yn foneddwr yng ngwir ystyr y gair, a chyfunai gryfder a phrydferthwch yn ei gymeriad.

Bu'r Parch. William Jones yn fugail ar yr eglwys o 1896 hyd ei farw yn 1911. Ddwy flynedd ar ôl hyn daeth y Parch. J. J. Evans o Fwlan i arolygu'r praid. Dechreuodd y Rhyfel Mawr y flwyddyn ddilynol, a themlodd yntau fod galwad arno i weini i angenrheidiau ysbrydol y milwyr Cymreig, a gwasanaethodd yn dra effeithiol fel caplan gyda'r milwyr yn y wlad hon ac yn Ffrainc.

Effeithiodd y Rhyfel Mawr yn drwm ar yr eglwys. Ychydig a ymunodd â'r fyddin o'u gwirfodd, ond bu nifer fawr yn /168/gwasanaethu eu gwlad. Gwnaeth yr eglwys ei rhan yn ganmoladwy yn ei gofal o'i bechgyn. Fel y crybwyllwyd eisoes, rhyddhawyd y gweinidog i wasanaethu'r milwyr, a gwnaed ymdrechion teilwng i ddarpar cysuron i'r gwŷr ieuanc ar fôr a thir. Cwmpodd naw o'r aelodau yn yr alanas. Wele eu henwau: William Jones, Tan-lan; William Jones, Tyddyn-fawd; Richard Jones, Glanffynnon; Robert Owen, Ty'n-pant; John Owen, Pen-ras; Joseff Williams, Tan-rofft; Humphrey Williams, 'Rhouse; John Williams, Goeten, a Capten Thomas Williams, Môr-annedd. Ar derfyn y rhyfel dychwelodd y gweinidog, a bu'n fugail diwyd a phoblogaidd yma hyd 1921, pryd y derbyniodd alwad i wasanaethu eglwysi Llanfair P.G. a Chefn-bach. Dilynwyd ef yn Niwbwrch gan y Parch. R. R. Hughes, B.A., cofiannydd y diweddar Dr. John Williams, Brynsiencyn, ac ar ôl 25 mlynedd o fugeiliaeth a phregethu effeithiol ymddeolodd yn 1947 ac aeth i fyw i Gaerdybi.

Yng nghanol blynyddoedd y Rhyfel Mawr cyfrannodd yr eglwys ,50 tuag at ddiddyledu eglwys fechan Llain-goch, Caerdybi.

Yn 1924 bu peth atgyweirio ar yr adeiladau pan newidiwyd yr ystablau yn fodurfa, ac y trefnwyd moddion i oleuo'r adeiladau â thrydan. Costiodd hyn ,950, a chliriwyd y cwbl yr un flwyddyn. Perthyn i'r eglwys hon hefyd ysgoldy a adeiladwyd yn 1924 i wneud y gwaith a wnelid gynt mewn tŷ annedd ym Mhen-lôn. Mantais fawr i'r gymdogaeth a fu'r ysgoldy hwn.

Codwyd tri o flaenoriaid yn 1925, sef O. T. Owen, yr ysgolfeistr, ond symudodd ef cyn hir i Gaerdybi; William Hughes, Carrog House, a David Jones, Plas-newydd;

hunodd y ddau olaf, y naill yn 1947 a'r llall yn 1934. Cafwyd tri blaenor arall yn 1936, sef Owen Thomas yr ysgolfeistr (a ymadawodd i'r Gaerwen yn 1944), Charles Williams, Ty'n goeden, a David Evans, Pen-y-bonc.

Derbyniodd y Parch. Haydn Thomas, B.A., alwad i fugeilio'r eglwys yn 1948, a'r flwyddyn ddilynol dewiswyd pedwar blaenor arall, sef Thomas Parry, 'Rhouse; W. H. Roberts, yr ysgolfeistr; J. H. Jones, athro cynorthwyol; a J. W. Jones, Ucheldre.

Teg yw coffau i un o'r bechgyn morwrol (Owen Hughes) a fagwyd yn yr eglwys hon, ond a oedd ers blynyddoedd lawer wedi ymsefydlu yn Awstralia ac wedi dringo i fod yn gapten mewn cwmni cyfoethog yno, roddi ,500 i Fethodistiaid Niwbwrch yn ei ewyllys. Ceisiodd y Wesleaid, hwythau hefyd yn Fethodistiaid, sicrhau yr arian, er y gwyddent yn eithaf da mai gyda'r Methodistiaid Calfinaidd y cafodd Capten Owen Hughes ei fagu, a'i dad (John Owen) yn aelod parchus gyda'r un corff ac wedi ei gladdu, yn ôl ei ddymuniad, ym mynwent y capel; a thebyg yw mai y cysylltiad hwn a enynnodd garedigrwydd y mab. (Am fanylion yr helynt cyfreithiol hwn gweler tt. 169-170.)

O blith plant eraill yr eglwys daeth amryw i amlygrwydd mewn gwasanaeth ar dir a môr - rhai yn feddygon, nifer dda yn gapteniaid, eraill yn athrawon ac athrawesau, a rhai i wasanaethu yn ariandai'r wlad; ohonynt ni bu yr un mwy llwyddianus na Syr J. Prichard-/169/Jones, Bar., y gŕer a roddodd i'w bentref genedigol yr adeiladau heirdd a adweinir fel y *Prichard-Jones Institute*. Daeth llu mawr o'r aelodau yn ddefnyddiol hefyd i'r eglwys a'i magodd, ac ni bu ball ar eu hymroddiad yng ngwahanol gylchoedd ynglŷn a gwaith yr eglwys.

Rhoddwyd sylw arbennig i ganiadaeth y cysegr. Breintwyd yr eglwys â doniau cerddorol a gysegrwyd i waith y Deyrnas. O'u mysg rhaid enwi Josiah Hughes, Ty'n-goeden, a fu'n arwain y mawl am agos i deugain mlynedd. Ceir eraill eto yn ddiffin ymroi i ddwyn y gwaith ymlaen. Cafwyd offeryn cerdd i gynorthwyo ym mawl y Tŷ yn gynnar, ac er mantais i amrywiol gyfarfodydd yr eglwys sicrhawyd piano i'r ysgoldy.

Cyflwynwyd i'r eglwys lestri cymun heirdd gan Mrs. Jones, Tyddyn-pwrpas, a Lady Prichard-Jones, Llundain, a chwpan bedydd gan Miss Griffith, Pen-dref. Yn 1923 caed llestri cymun unigol at wasanaeth yr eglwys gan Miss Williams, Idan House. Tair blynedd yn ddiweddarach gadawodd Miss Elisabeth Williams, Hendre Terrace, gymynrodd o ,100 i'r eglwys, ac yn 1930 derbyniwyd eto ,60 drwy ewyllys John Hughes, Yr *Institute*, a swm cyffelyb at wasanaeth ysgoldy Pen-lôn. Tair blynedd wedi hyn derbyniwyd cymynrodd arall drwy ewyllys H. O. Hughes, Y.H., Cefn-mawr, Llangaffo. Aml iawn fu rhif rhoddion yr aelodau, ac yn eu plith Lyfr Emynau hardd at wasanaeth y pulpud - rhodd Richard Williams, Plas-pydwau, ond sy'n byw yn Awstralia er pan oedd yn ddyn ieuanc.

Yn New South Wales, Awstralia, bu farw Owen Hughes, brodor o Niwbwrch, ac yn ei ewylllys, dyddiedig 10 Awst, 1881, gadawodd ,500 i'r "Methodist Chapel in Newborough, Anglesey, North Wales." Gwnaeth Cynhadledd Wesleiaidd Prydain gais am yr arian hyn, ond mynnai Methodistiaid Calfinaidd Niwbwrch mai hwy oedd â hawl iddynt. Aed â'r mater i'r *Chancery Division of the High Court of Justice*; yr achwynwyr oedd ymddiriedolwyr capel y Methodistiaid Calfinaidd, sef y Parch. William Jones; Richard Davies, A. S., Arglwydd Raglaw Môn, Yswain; John Roberts, A.S., Yswain; Mri. Richard Prichard Jones, Owen Lewis a chwe gë'r arall; y diffynyddion oedd Mri. George Hamilton a Walter Joseph Munro, sef ysgutorion y diweddar Owen Hughes.

Yn y cyfamser derbyniodd Frederick Brooke, cyfreithiwr yr achwynwyr, lythyr oddi wrth Mr. Henry I. Pope, ar ran Cynhadledd Wesleiaidd Prydain i ddweud nad oedd y Wesleaid yn bwriadu cynnig unrhyw dystiolaeth yn erbyn hawl y Methodistiaid Calfinaidd.²⁴ Addefodd y diffynyddion eu bod wedi neillduo a budd-soddi y ,500 mewn *Reduced 3% Annuities*. Yn wyneb hyn, gorchmynnodd y /170/Llys, drwy Mr. Lavie y cofrestrydd, ar 19 Mawrth 1985, fod y diffynyddion i werthu yr *Annuities* ac i drosglwyddo yr arian amdanynt, oddi eithr ,28/18/9 [£28-95p], sef eu costau, i'r achwynwyr.

Mewn llythyr a ddyddiwyd 21 Awst 1896, dywedodd Mr. R. P. Jones, un o ymddiriedolwyr capel M.C. Niwbwrch, mai'r cyfanswm a dderbyniwyd wedi talu y costau a ganiatawyd gan y Llys, oedd ,412 6. 3. [- 32p], a thalwyd y swm hwn i Mr. Richard Davies, Treborth, Arglwydd Rhaglaw Môn, a throsglwyddodd yntau yr arian i gyfrif y Capel yn yr Old Bank, Caernarfon, ar 11 Mawrth 1886. Defnyddiwyd yr arian i leihau dyled o ,700 oedd yn aros ar y capel yn 1886. Yr oedd cyfanswm y gest o ail-adeiladu'r capel yn agos i ,2,000.

²³ *Commissioners' Report on Endowed Charities - County of Anglesey* (1987), pp. 158-9.

²⁴ Yn ystod y prawf, dywedir iddynt brofi mai y Methodistiaid Calfinaidd yw Methodistiaid Cymru, ac mai Methodistiaid Lloegr yw y Wesleaid.